## ATODLEN

Rheoliad 3

### YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS MEWN ADRODDIADAU LLYWODRAETHWYR

**1.** Os oes ar y corff llywodraethu rwymedigaeth (yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 1998) i gynnal cyfarfod blynyddol i'r rhieni,—

(a) manylion dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod blynyddol nesaf i'r rhieni a'i agenda;

(b) mynegiad mai trafod adroddiad y llywodraethwyr a hefyd y dull y cyflawnodd y corff llywodraethu, y pennaeth a'r awdurdod addysg lleol eu swyddogaethau fydd diben y cyfarfod hwnnw; ac

(c) adroddiad ar yr ystyriaeth a roddwyd i unrhyw benderfyniadau a basiwyd yn y cyfarfod blynyddol blaenorol i'r rhieni (os oedd ar y corff llywodraethu rwymedigaeth i gynnal cyfarfod o'r fath).

**2.** Y manylion canlynol am aelodau'r corff llywodraethu a'u clerc—

(a) enw pob llywodraethwr gan enwi, ym mhob achos, y categori (yn unol â'r diffiniadau a gynhwysir yn Rhan I o Atodlen 9 i Ddeddf 1998) y mae'r llywodraethwr yn perthyn iddo ac, os yw'r llywodraethwr yn llywodraethwr ex officio, mai llywodraethwr o'r fath yw ef neu hi;

(b) yn achos llywodraethwr wedi'i benodi, y person a'i benododd;

(c) mewn perthynas â phob llywodraethwr nad yw'n llywodraethwr ex officio, y dyddiad y daw cyfnod ei swydd i ben; ac

(ch) enw a chyfeiriad cadeirydd y corff llywodraethu a'u clerc.

**3.** Pa wybodaeth bynnag sydd ar gael i'r corff llywodraethu am y trefniadau ar gyfer etholiad nesaf y llywodraethwyr-rieni.

**4.** Datganiad ariannol—

(a) sy'n atgynhyrchu neu'n crynhoi unrhyw ddatganiad ariannol y mae copi ohono wedi'i roi i'r corff llywodraethu gan yr awdurdod addysg lleol o dan adran 52 o Ddeddf 1998 ers adroddiad blaenorol y llywodraethwyr;

(b) sy'n dangos, yn gyffredinol, sut y defnyddiwyd unrhyw swm y darparwyd ei fod ar gael i'r corff llywodraethu gan yr awdurdod (gan gynnwys cyfran yr ysgol o'r gyllideb) yn y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef;

(c) sy'n rhoi manylion sut y defnyddiwyd unrhyw roddion a gafodd yr ysgol yn y cyfnod hwnnw; ac

(ch) sy'n datgan cyfanswm unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth a dalwyd i aelodau'r corff llywodraethu yn y cyfnod hwnnw.

**5.** Yr wybodaeth sy'n ymwneud ag asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gyhoeddwyd ddiweddaraf gan y corff llywodraethu yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 408 o Ddeddf 1996(**1**).

**6.** Yr wybodaeth sy'n ymwneud â'r canlynol—

(a) disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer arholiadau cyhoeddus a chyraeddiadau'r disgyblion mewn arholiadau cyhoeddus;

(**1**) Diwygiwyd is-adran (1) (a) o adran 408 gan baragraff 30(a) o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44); diwygir is-adran (4)(f) yn rhagolygol gan baragraff 30(b) o'r Atodlen honno; diwygiwyd is-adran (2) (d) gan baragraff 106(b) o Atodlen 30 i Ddeddf 1998; diddymwyd is-adrannau (1)(b), (3) a (4)(b) ac (c) gan baragraff 106(a), (c) a (d)(i) o'r Atodlen honno ac Atodlen 31 i'r Ddeddf honno; a diwygiwyd is-adran (4)(d) gan baragraff 106(d)(ii) o Atodlen 30 i Ddeddf 1998. Y rheoliadau cyfredol yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/1812); gweler paragraffau 18—20 o Atodlen 2.

(b) y cymwysterau galwedigaethol a enillwyd gan y disgyblion; ac

(c) cofnodion presenoldeb y disgyblion;

a ddarparwyd ddiweddaraf gan y corff llywodraethu yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 537(1) o Ddeddf 1996(**2**).

**7.**—(1) Yr wybodaeth a ddarparwyd ddiweddaraf gan y corff llywodraethu yn unol â rheoliadau (**3**) a wnaed o dan is-adran (7) o adran 537(**4**) o Ddeddf 1996, gan gynnwys gwybodaeth a gyhoeddwyd gan (neu o dan drefniadau a wnaed gan) y Cynulliad Cenedlaethol o dan is-adran (6) o'r adran honno.

(2) Os yw'r wybodaeth a gyhoeddir gan (neu o dan drefniadau a wnaed gan) y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 537(6) o Ddeddf 1996 yn cael ei chyhoeddi yn ei ffurf lawn ac ar ffurf gryno, rhaid cynnwys yr wybodaeth lawn yn adroddiad y llywodraethwyr.

**8.** Yr wybodaeth sy'n ymwneud â disgyblion sy'n ymadael â'r ysgol, neu'r gyflogaeth neu'r hyfforddiant y mae disgyblion yn dechrau arnynt wrth ymadael â'r ysgol, a ddarparwyd ddiweddaraf gan y corff llywodraethu yn unol â rheoliadau(**5**) a wnaed o dan adran 537(1) o Ddeddf 1996.

**9.** Y camau a gymerwyd gan y corff llywodraethu i ddatblygu neu gryfhau cysylltiadau'r ysgol â'r gymuned (gan gynnwys cysylltiadau â'r heddlu).

**10.** Pa wybodaeth bynnag ynghylch unrhyw dargedau—

(a) ar gyfer gwelliannau a osodwyd gan y corff llywodraethu ynghylch perfformiad disgyblion yn yr ysgol y mae'n ofynnol ei chyhoeddi yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 1997(**6**)); a

(b) ar gyfer gostwng lefel absenoldebau diawdurdod ar ran disgyblion dyddiol perthnasol yn yr ysgol a osodwyd gan y corff llywodraethu yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 63 o Ddeddf 1998(**7**).

**11.** Mynegiad o'r canlynol mewn perthynas â'r cyfnod ers adroddiad blaenorol y llywodraethwyr—

(a) i ba raddau y cafodd nodau'r corff llywodraethu ynghylch chwaraeon yn yr ysgol eu cyrraedd; a

(b) unrhyw lwyddiannau nodedig mewn chwaraeon gan dimau'r ysgol yn ystod y cyfnod hwnnw.

**12.** Crynodeb o unrhyw adolygiad a gynhaliwyd gan y corff llywodraethu o ran unrhyw bolisïau neu strategaethau a fabwysiadwyd ganddynt wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol ac unrhyw gamau a gymerwyd ganddynt yn dilyn adolygiad o'r fath.

**13.** Dyddiadau dechrau a diwedd pob tymor ysgol, a dyddiadau'r gwyliau hanner tymor, am y flwyddyn ysgol nesaf.

---

(**2**) Amnewidir adran 537(1) newydd gan baragraff 152 o Atodlen 30 i Ddeddf 1998. Y Rheoliadau cyfredol yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Perfformiad Ysgolion) (Cymru) 1998 (O.S. 1998/1867 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/1470). Gweler rheoliad 9 ac Atodlenni 1, 2 a 4 i'r Rheoliadau hynny.

(**3**) Gweler rheoliad 10 o O.S. 1998/1867.

(**4**) Diwygiwyd is-adran (7) o adran 537 gan baragraff 152 o Atodlen 30 i Ddeddf 1998.

(**5**) Gweler O.S. 1999/1812, Atodlen 2, paragraffau 23 a 24.

(**6**) 1997 p.44. Diwygiwyd adran 19 gan baragraff 213 o Atodlen 30 i Ddeddf 1998. Y rheoliadau cyfredol yw Rheoliadau Addysg (Targedau Perfformiad Ysgolion a Thargedau Absenoldeb Diawdurdod) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/1811).

(**7**) Gweler O.S. 1999/1811.

**14.**—(1) Crynodeb o unrhyw newidiadau i'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys (yn unol â rheoliadau(**8**) a wnaed o dan adrannau 408 neu 537 o Ddeddf 1996 neu o dan adran 92 o Ddeddf 1998) yn llawlyfr yr ysgol ers i adroddiad blaenorol y llywodraethwyr gael ei baratoi.

(2) Pan fydd y Rheoliadau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi gwybodaeth wahanol mewn llawlyfrau gwahanol, rhaid cymryd bod is-baragraff (1) yn cyfeirio at bob llawlyfr o'r fath.

(**8**) Y rheoliadau cyfredol sy'n nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn llawlyfrau ysgolion yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/1812).